# Cynnwys

Rhaglen .... 2
Eitem 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf .... 6
Eitem 6 (i) - Hunan Arfarniad Ysgol Edmwnd Prys .... 14
Eitem 6 (ii) - Hunan Arfarniad Ysgol Brynrefail .... 18
Eitem 8 (a) - Cofnodion Drafft Cymdeithas CYSAGau Cymru .... 26
Eitem 8 (b) - Adroddiad Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru 2012-13 .... 30
Atodiad 1 - Adroddiad y Trysorydd 2012-2013 .... 32
Atodiad 2 - Cymdeithas CYSAGau Cymru Datganiad Cyfrifon 2012-13 .... 36
Eitem 10 - Llythyr CYSAGau Cymru ynglyn ag enwebiadau .... 37
Atodiad 1 - Ffurflen Enwebiadau .... 38

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL**

**STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00 p.m. DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2014**

**2.00 p.m. WEDNESDAY, 19 FEBRUARY 2014**

Lleoliad / Location

**Siambr Hywel Dda**

**Swyddfa'r Cyngor**

**CAERNARFON**

**Nodwch y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the venue**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 11.02.14

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL**
**STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION**

## AELODAETH / MEMBERSHIP (7)

### Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards
Selwyn Griffiths
Gareth Thomas

**Annibynnol / Independent (2)**

Y Cynghorwyr / Counillors

Tom Ellis
Jean Forsyth

**Llais Gwynedd (2)**

Llywarch Bowen Jones
Louise Hughes

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members –**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-Chairman of the Council –
Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

## Cristnogion a Chrefyddau Eraill / Christians and Other Religions

Yr Eglwys Fethodistaidd / Methodist Church - Mr Wyn Myles Meredith
Undeb Bedyddwyr Cymru / Union of Welsh Baptists - Mrs Ruth Davies
Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Parch. / Rev. Deian Evans
Yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales - Parch. / Rev. Robert Townsend
Yr Annibynnwyr / The Independents – Mr Cynrig Hughes
Yr Eglwys Gatholig / Catholic Church - Mrs Eirian Bradley Roberts

## Athrawon / Teachers

| | | |
|---|---|---|
| ASCL | - | Mrs Alwen Watkin |
| UCAC | - | Mr Noel Dyer |
| NAS/UWT | - | Mrs Miriam Angharad Amlyn |
| NUT | - | Mr Euron Hughes |
| ATL | - | Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination |
| NAHT | - | Mrs Lisabeth Roberts |

## Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Y Parch. Aled Davies

# RHAGLEN

1. **GWEDDI**

2. **YMDDIHEURIADAU**

   I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2013.

   (Copi yn amgaeëdig - Papur Gwyn)

5. **MATERION BRYS**

   I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. **HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION**

   I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

   (i) Ysgol Gynradd Edmwnd Prys, Gellilydan
   (ii) Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug

   (Copi'n amgaeedig – Papur Hufen)

7. **Y FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD GENEDLAETHOL AC ADOLYGIAD O GWRICWLWM CENEDLAETHOL CYMRU**

   I dderbyn cyflwyniad gan Miss Bethan James, Arweinydd System GwE, ar yr uchod.

8. **CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

   (a) I dderbyn cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2013 yng Nghaerdydd.

   (Copi'n amgaeedig – Papur Gwyrdd)

(b) I dderbyn, er gwybodaeth, adroddiad ar weithgareddau’r Gymdeithas 2012-13.

(Copi’n amgaeedig – Papur Pinc)

(c) I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD 2012/13**

I dderbyn, er gwybodaeth, gopi terfynol o adroddiad blynyddol CYSAG Gwynedd.

(Copi i’w ddosbarthu yn y cyfarfod)

10. **PWYLLGOR GWAITH CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

I gyflwyno llythyr dyddiedig 5 Chwefror 2014 ynghylch ethol aelodau i’r Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

(Copi yn amgaeëdig - Papur Gwyn)

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 23/10/13

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Gareth Thomas – Is-gadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorydd Tom Ellis

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), a Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Arweinydd Sustem GwE) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Huw Edwards, Jean Forsyth, Louise Hughes, Llywarch Bowen Jones, Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mrs Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Alwyn Watkin (ASCL)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Parchedig Deian Evans.

**2. DYMUNIADAU GORAU**

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau i'r Parchedig Deian Evans a fydd yn ymddeol o'r weinidogaeth yn ardal Penygroes yn fuan. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad a'i gyfraniad gwerthfawr i gyfarfodydd CYSAG dros y blynyddoedd y bu'n gwasanaethu fel Aelod.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn Eitem 9 (i) a (v) Hunan Arfarniadau oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn Ysgolion Ardudwy, Harlech a Chefn Coch, Penrhyndeudraeth. Roedd o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNIAD

(a) Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Ann Williams a Mrs Helen Evans o Ysgol Llanelltyd, ger Dolgellau, i'r cyfarfod i bwrpas rhoi cyflwyniad i Aelodau CYSAG am Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen ac i rannu enghreifftiau o'r gwersi a ddarparwyd ganddynt i'r disgyblion.

(b) Gosododd Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE, y cyd-destun drwy gyfeirio at y Fframwaith Enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 - 19 oed yng Nghymru a fabwysiadwyd gan CYSAG Gwynedd fel Maes Llafur Cytûn. Nododd mai trwy weithgareddau ymarferol, integredig sy'n cynnal diddordeb y plant, gallant ddysgu mwy am eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch a datblygu dealltwriaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol gyfoethog yng Nghymru.

Atgoffwyd yr Aelodau bod gofynion y maes llafur yn eang ac nad oes pynciau yn y Cyfnod Sylfaen ond bod athrawon yn llywio'r addysg dan benawdau penodol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
- Pobl Credoau a Chwestiynau

Nodwyd bod 39 o sgiliau yn berthnasol i'r maes Pobl Credoau a Chwestiynau. Mae'n ofynnol i CYSAG gynghori ysgolion nid yn unig ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol ond hefyd ynglŷn â pha fath o adnoddau addas sydd ar gael. Darparir hefyd engreifftiau o weithgareddau sydd yn addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen megis teganau, defnydd o ddoliau persona, a.y.b. Wrth feddwl am Addysg Grefyddol fel man cychwyn bydd hyn yn arwain wedyn at gyfleoedd i ddatblygu sgiliau eraill gyda rhai athrawon yn ceisio rhagfynegi'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a rhai eraill yn cadw cofnod ar ôl iddynt dreulio amser ar thema benodol. Bydd athrawon yn cynllunio'n benodol drwy ddarpariaeth barhaus, cyfoethogi'r ddarpariaeth a chreu tasgau ffocws ar gyfer y dysgwyr.

(c) Gwelwyd gan Mrs Ann Williams a Mrs Helen Evans beth oedd yn digwydd ar lawr y dosbarth a chafwyd amlinelliad o lyfr stori "Salamuta and Kandoni go missing" fel man cychwyn a oedd wedi ei osod yn Ghana ac a oedd yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddysgu mwy am eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch. Yn deillio o'r stori, roedd cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau megis:

- chwarae rôl
- mynegi teimladau
- pwyso cynhwysion
- coginio
- gwneud modelau o Fosg a dysgu am arferion gweddio'r Fwslim.
- ymweld ag addoldai lleol er mwyn deall y gwahanol nodweddion
- edrych ar ddyddiadau pwysig
- ysgrifennu llythyrau
- defnyddio storïau a gwaith rôl i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau eraill
- cyfle i wneud pêl droed o fagiau plastig
- dysgu am Fasnach Deg

(ch) I gloi, cyfeiriodd Miss Bethan James at waith ymchwil a gwblhawyd gan Ms Marnel Edwards, Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth ac fe welwyd sut y bu iddi ddatblygu a

chynllunio gweithgareddau, paratoi adnoddau i ennyn chwilfrydedd y disgyblion gan ymestyn datblygiad o lythrennedd a rhifedd. Yn deillio o'r ymchwil gwelwyd bod bron pob un o'r grŵp targed yn dangos nodweddion cyrhaeddiad deilliant 6 ac yn cyflawni deilliannau disgwyliedig y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Blwyddyn 2.

(d) Yn ogystal, cyfeiriwyd at bwyllgor gan Lywodraeth Cymru y bu Mrs Ann Williams yn rhan ohono i lunio canllawiau o dan y teitl Pobl, Credoau a Chwestiynu ar gyfer datblygu syniadau ynglyn a chynllunio dysgu ac addysgu ym maes Addysg Grefyddol i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed. Nodwyd bod y canllawiau yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos arfer da yn yr Ystafell ddosbarth, gridiau cynllunio ac awgrymiadau o ran asesu. Nodwyd ymhellach y byddai'r canllawiau yn hynod ddefnyddiol i ysgolion.

(dd) Diolchwyd a llongyfarchwyd yr ysgolion am eu gwaith a nodwyd balchder o weld bod y ffydd Gristnogol yn cael gwerth yn y gwersi ymysg ffydd eraill. Nodwyd yn nhrefn arolygu bresennol bod ESTYN yn chwilio am enghreifftiau o arferion da ac fe fydd llawer o bwysau ar ysgolion i rannu profiadau.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG anfon llythyr o ddiolch i Ysgolion Llanelltyd a Chefn Coch am y gwaith.**

**(b) Gofyn i Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE, anfon copi electroneg o'r ddogfen Pobl, Credoau a Chwestiynu ar gyfer dysgwyr 3 i 7 oed i bob ysgol gynradd yn y Sir.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2012-13

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2012-13, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

**(A)** Eglurodd Miss Bethan James mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol ydoedd crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd gan CYSAG dros y flwyddyn flaenorol ond bod natur yr adroddiad wedi newid y tro hwn i'r rhai blaenorol. Esboniodd bod Llywodraeth Cymru bob rhyw dair blynedd yn casglu adroddiadau blynyddol CYSAGau Cymru ac yn cyhoeddi adolygiad ohonynt. Roedd adolygiad drafft wedi ei baratoi gan y Llywodraeth sy'n cynnwys argymhellion sydd wedi ei hymgorffori gan Miss Bethan James yn yr adroddiad blynyddol drafft ac a ragwelir fydd yn batrwm ar gyfer y dyfodol.

Noda Adolygiad y Llywodraeth yr angen i CYSAGau barhau:

- i gynghori a chefnogi ysgolion
- i fonitro ac arfarnu llwyddiant y CYSAG
- i fonitro a chynghori ar addoli ar y cyd
- gyda'r arferiad bod Aelodau CYSAG yn ymweld ag ysgolion i gael blas o'r hyn sy'n digwydd mewn gwasanaethau addoli ar y cyd

Braf ydoedd nodi bod CYSAG Gwynedd wedi mabwysiadu trefn o dderbyn ac ystyried hunan arfarniadau ysgolion a diolchwyd i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol am hyrwyddo hyn.

Gwelir o fewn yr Adolygiad gyfeiriad at y bwlch ym mherfformiad bechgyn a merched ac y dylai CYSAG ymdrin â hyn.

Yn y gorffennol roedd Miss Bethan James yn ei rôl fel Ymgynghorydd Dyniaethau gyda Chwmni CYNNAL yn trosglwyddo negeseuon CYSAG i'r ysgolion ond erbyn hyn roedd y

rôl ymgynghorol wedi ei golli yn sgil disodli Cwmni CYNNAL a chreu corff newydd GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) ac o ganlyniad felly byddai'n rhaid i CYSAG fod yn glir o'r negeseuon i'w cyflwyno i ysgolion.

Tywyswyd yr Aelodau drwy'r adroddiad drafft gan gyfeirio at y prif negeseuon o fewn yr adroddiad:

- bod tudalennau o 4 – 11 yn ymwneud a pha mor dda yw safonau addysg grefyddol yng Ngwynedd ac fe wneir hyn drwy gyflwyno i CYSAG ganlyniadau yn ogystal â hunan arfarniadau ysgolion o fewn y tymor cyn yr Arolwg gan ESTYN, yn ystod tymor yr Arolwg neu ar ôl yr Arolwg

Yn deillio o'r uchod, cafwyd trafodaeth eang ynglyn a ddylid enwi'r ysgolion yn yr Adroddiad Blynyddol sydd yn cyflwyno hunan arfarniadau a'r rhai sydd ddim yn eu cyflwyno. Roedd gwahaniaeth barn ymysg yr Aelodau ynglyn ag enwi ysgolion am wahanol resymau megis bod cyfrifoldeb ar CYSAG i fonitro hunan arfarniadau a chefnogi'r swyddogion addysg ac os na wneir hyn teimlwyd nad oedd CYSAG yn ymgymryd â'i gyfrifoldeb ac mewn sefyllfa o wendid. Teimlwyd y dylai'r hunan arfarniad cael ei gwblhau yn naturiol fel rhan o'r drefniadau hunan arfarnu'r Ysgolion. Ar y llaw arall, teimlwyd na ddylid eu henwi ac y byddai'n fwy teg i nodi nifer yr ysgolion sydd heb eu cyflwyno oherwydd efallai bod gan ysgolion resymau dilys dros fethu â chyflwyno eu hunan arfarniadau ac oni ddylid ystyried y mater drwy'r Fforymau Penaethiaid.

Mewn ymateb i'r sylw uchod, eglurodd y Swyddog Cynorthwyol a Chlerc CYSAG ar y cyfan bod ysgolion yn dda iawn am anfon yr hunan arfarniadau ac mai oddeutu 3 neu 4 ysgol y flwyddyn sydd yn methu eu cyflwyno ar amser. Ceir ambell amgylchiad arbennig lle nad yw yn ddoeth i barhau i fynd ar eu hôl lle mae Pennaeth mewn gofal o ysgol.

Ychwanegodd Miss Bethan James bod rhai Siroedd yn ystyried derbyn yr hunan arfarniadau yn flynyddol gydag Ynys Môn wedi penderfynu gwneud cais amdanynt bob tair blynedd.

Yn deillio o'r drafodaeth uchod cynigwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd i enwi'r ysgolion sydd yn eu cyflwyno â'r rhai sydd ddim.

**Argymhellwyd: Nodi yn Adroddiad Blynyddol CYSAG enwau'r ysgolion sydd yn cyflwyno hunan arfarniadau yn ogystal â'r ysgolion hynny sydd ddim.**

**(B)** Cyfeiriwyd yn yr adroddiad bod oddeutu hanner yr hunan arfarniadau yn ymateb i ofynion CYSAG ond tynnwyd sylw y nodwyd bod llawer o'r sylwadau yn gyffredinol iawn wrth gyfeirio at safonau pwnc a'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol ac mai prin oedd y cyfeiriadau at ofynion y Maes Llafur Cytun.

Anfonwyd ffurflen hunan arfarnu enghreifftiol i ysgolion yn ystod y flwyddyn ac fe welir gwelliant yn y sylwadau hyd yma.

Tynnwyd sylw bod yr Adroddiad Blynyddol yn enwi'r ysgolion sydd gydag arferion da ac yn bositif am y pwnc oherwydd teimlwyd bod hyn yn rhoi cyfeiriad i ysgolion fedru ymweld â'i gilydd i rannu profiadau ac arferion da.

Gwnaed sylw gan Aelod ynglyn â chyflawniad Adrannau Addysg Grefyddol i ddarparu portffolio o waith disgyblion i sylw safonwyr allanol CBAC, gan nodi mai portffolio personol athrawes / athro ydynt a phe byddai'r athrawes / athro yn symud o ysgol, nid yw'r portffolio yn ddangosydd ei fod yn gyfredol.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau wyntyllu'r argymhellion ynglyn â'r ddarpariaeth ac fe gymeradwywyd yr argymhellion fel amlinellwyd yn yr adroddiad drafft.

**(C)** Ymhelaethodd Miss Bethan James ynglyn â chynnwys yr argymhellion yn yr adroddiad blynyddol ynglyn â chanlyniadau ac fe dynnwyd sylw at gefnogaeth y Tîm Ymgynghorol er mwyn ymateb i'r hyn a godwyd yn ystod y flwyddyn megis cefnogi ysgolion, paratoi a darparu cyrsiau hyfforddi, arsylwi gwersi athrawon newydd gymhwyso yn y sector uwchradd, a.y.b.

Rhestrwyd y dogfennau sydd wedi cael eu cyhoeddi a thynnwyd sylw penodol at adroddiad thematig ESTYN ac y dylid codi ymwybyddiaeth athrawon Addysg Grefyddol y sector uwchradd o'r adroddiad hon.

Nodwyd bod canllawiau Addoli ar y cyd wedi eu dosbarthu i'r ysgolion ac awgrymwyd y gall CYSAG ystyried cynnal eu cyfarfodydd mewn ysgolion uwchradd i'r dyfodol ar gyfer mynychu gwasanaethau addoli ar y cyd. Deallir bod awdurdodau llawer llai yn ddaearyddol na Gwynedd yn gwneud hyn. Efallai y byddai modd cynnal diwrnod hyfforddiant i lywodraethwyr ar addoli ar y cyd.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â hyrwyddo disgyblion sydd yn derbyn canlyniadau da mewn Addysg Grefyddol ar gyfer swyddi yn y weinidogaeth, nodwyd bod posteri gan Gyrfa Cymru yn cynnig pob math o swyddi boed hyn i ddilyn gyrfa yn y weinidogaeth neu weinyddol megis ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mynegwyd bod y pwnc yn bwysig ynddo'i hun er mwyn astudio pynciau eraill ac yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy drwy gloriannu gwahanol ddadleuon llosg.

Ychwanegodd Miss Bethan James bod Prifysgol Feddygol yng Nghaerdydd yn rhoi bri mawr ar ddisgyblion sydd wedi astudio Addysg Grefyddol oherwydd eu bod wedi astudio cwestiynau llosg.

Yn olaf, gwiriwyd yr Atodiadau ynghlwm i'r Adroddiad Blynyddol er cywirdeb.

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad blynyddol drafft a chymeradwyo'r argymhelliad yn (A) uchod a'r holl argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol drafft.**

## 6. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

**(A)** Cyflwynodd Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE, wybodaeth am ganlyniadau Cyfnod Allweddol 3 gan nodi mai dim ond 5 sydd wedi cyflwyno canlyniadau eleni ac felly nid oedd mewn sefyllfa i wneud dadansoddiad o'r safonau. Roedd CYNNAL wedi bod yn casglu'r data ers 1996 ar gyfnod lle'r oedd y Llywodraeth yn casglu data ar gyfer pob pwnc heblaw Addysg Grefyddol. Deallir bod athrawon wedi cwblhau'r asesiadau ond tybir mai gwendid gweinyddol yw'r broblem o fwydo'r data i CYNNAL.

Awgrymwyd y dylid anfon llythyr i Benaethiaid Adran sydd heb gyflwyno data i wneud cais amdanynt unwaith eto.

Mewn ymateb, esboniodd Aelod bod pwyslais ysgolion ar ddefnyddio data Fischer Family Trust, Ffynnon. a.y.b. a hyd yn oed data i gymharu hefo pynciau hanes a daearyddiaeth oherwydd nad oes gan CYNNAL ddim byd i'w gynnig o ran cymhariaeth. Byddai'n ddefnyddiol i Adrannau ysgolion dderbyn gwybodaeth am berfformiad Gwynedd o ran cymharu. Ychwanegwyd nad oedd rheswm na all Adrannau gymharu gydag ysgolion Gwynedd, Môn a dwy ysgol yng Nghonwy.

**Penderfynwyd: Gofyn i Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG anfon llythyr i Benaethiaid Adran yr ysgolion hynny sydd heb gyflwyno canlyniadau eleni i'w cyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.**

**(B)** O safbwynt canlyniadau TGAU, eglurodd Miss Bethan James yn y gorffennol bod modd gweld canlyniadau pob ysgol a'u sgôr mewn pynciau eraill ond nad oedd y wybodaeth ar gael iddi hi rhagor.

Nodwyd bod data canlyniadau TGAU Gwynedd yn dda iawn ac fe nodwyd faint o ymgeiswyr sydd yn derbyn graddau A* / A, bod nifer o ddisgyblion yn amrywio mewn dosbarthiadau, mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU a'r sgôr cyfartalog ar gyfer y merched yn 47 o'i gymharu â 45 i fechgyn. Tra'n derbyn nad oedd cymaint o fwlch ym mhatrwm Gwynedd ac yn dangos ychydig o welliant roedd y bwlch yn uchel o safbwynt y graddau uwch. Drwy edrych a dadansoddi'r data gwelwyd bod canran uchel yn sefyll arholiad Astudiaeth Crefyddol yn Ysgol Friars drwy ddefnyddio cymhwyster TGAU i achredu'r Addysg Grefyddol statudol ac felly nad oedd y bwlch rhwng y graddau mor eang ag ysgolion eraill. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i wahodd Adran Ysgol Friars i roi cyflwyniad i CYSAG i gael blas o'r hyn a wneir yn yr ysgol honno.

Mewn ymateb i'r uchod, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- bod cefnogaeth polisi ysgol yn galluogi rhai ysgolion i wneud hyn ond nad oedd yn bosibl ei amserlennu ymhob ysgol.
- Bod dewis o bynciau yn amrywio o ysgol i ysgol
- Bod bwlch rhwng merched a bechgyn yn broblem genedlaethol ond yn fwy o broblem mewn Addysg Grefyddol
- Byddai'n ddiddorol i wybod pa gyrsiau a gynigir gan ysgolion
- Bod trefniadau mewnol CBAC wedi cysoni safon y ddau bapur arholiad ond efallai bod rhai pynciau yn apelio'n fwy i'r merched na'r bechgyn a bod hyn yn cyfrannu at wahaniaeth yn y bwlch sydd rhyngddynt

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion canlynol:**

**(a) Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;**
**(b) Gwahodd Adran Addysg Grefyddol Ysgol Friars i rannu arferion da mewn cyfarfod o CYSAG Gwynedd**
**(c) Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn ymateb i Adroddiad Arolwg ESTYN (2013) ac i ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:**

- **pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc?**
- **Pam mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?**
- **Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi ar arholiadau allanol? Pa strategaethau eraill ddylid eu hystyried er mwyn cau'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?**
- **Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?**

## 7. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod gan nodi bod pob un o'r ysgolion o fewn y cylch arolygu sef 6 ysgol wedi ymateb i'r cais i gyflwyno hunan arfarniadau yn dilyn arolygiadau diweddar.

(i) **Ysgol Ardudwy, Harlech**

Nodwyd bod y deilliannau a'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol yn dda yn yr ysgol uchod gyda strategaethau dysgu ac addysgu amrywiol a heriol ar waith a'r arsylliadau gwersi wedi bod o leiaf Da+ o ran y dysgu a'r addysgu drwy gydol y flwyddyn. Noda'r hunan arfarniad digonol o safbwynt darpariaeth addoli ar y cyd gyda thri mater i gael sylw penodol mewn perthynas â'r ansawdd.

(ii) **Ysgol Dyffryn Ogwen**

Noda'r hunan arfarniad yr ysgol uchod dystiolaeth fanwl iawn bod deilliannau mewn Addysg Grefyddol yn rhagorol ac yng nghyd-destun y ddarpariaeth bod tystiolaeth o arsylwi gwersi gan yr Uwch Dim Rheoli yn nodi bod safon yr addysgu yn y pwnc yn rhagorol ynghyd â thystiolaeth yn y llyfrau gwaith sy'n dangos defnydd cysgon o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl yn gwneud y disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Nodwyd bod y ddarpariaeth addoli ar y cyd yn dda ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

(iii) **Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn**

Noda'r hunan arfarniad bod arsylwadau gwersi yn dangos bod gan y disgyblion ddealltwriaeth ragorol yn y maes Addysg Grefyddol ac yn cyd-weithio'n glos hefo'r gymuned. Gosodir safon ragorol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 sef pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol er nad oedd hyn wedi ei nodi ar yr hunan arfarniad ond mynegodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG ei fod wedi trafod gyda Phennaeth yr ysgol i gadarnhau hyn. Tynnwyd sylw hefyd i anwybyddu'r marciau cwestiwn a nodir am Gwestiwn Allweddol 2 sef y ddarpariaeth gan gadarnhau mai da yw'r safon. O safbwynt Addoli ar y cyd nodir bod y ddarpariaeth yn rhagorol.

(iv) **Ysgol Dolbadarn, Llanberis**

Nodwyd bod y deilliannau a'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol yn dda yn yr ysgol uchod a thynnwyd sylw bod y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn cael profiadau ardderchog drwy gyfuniad da o waith ar ac oddi ar y safle drwy ymweliadau amrywiol sy'n ehangu eu dealltwriaeth. Noda'r hunan arfarniad bod safon yr Addoli ar y cyd yn dda gyda naws ysbrydol i'r gwasanaethau a'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw a thrwy rannu teimladau ar y pryd.

(v) **Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth**

Nodwyd bod yr ysgol uchod wedi paratoi sylwadau manwl gan nodi safon dda ar gyfer cwestiwn allweddol 1 sef pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol. Yn yr un modd nodwyd bod y safon yn dda o safbwynt darpariaeth mewn Addysg Grefyddol gan nodi bod cydlynydd y dyniaethau wedi mynychu hyfforddiant HADA ac wedi cael budd mawr o'r hyfforddiant. Yn yr un modd nodwyd safon dda yn y ddarpariaeth Addoli ar y cyd gyda'r ysgol yn darparu gweithred ddyddiol ar gyfer yr holl ddysgwyr yn unol â'r gofyniad statudol.

(vi) **Ysgol Baladeulyn, Dyffryn Nantlle**

Noda hunan arfarniad yr ysgol uchod bod y safon yn dda ar gyfer cwestiwn allweddol 1 ac o safbwynt cwestiwn allweddol 2, gan nodi bod angen datblygu cysylltiadau rhyngwladol er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant ymhellach. Yn yr un modd nodwyd safon dda yn y ddarpariaeth Addoli ar y cyd.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau wneud sylwadau ar gynnwys yr hunan arfarniadau ac fe nodwyd y gwelir cynnydd a gwelliant yn ansawdd yr hunan arfarniadau.

Nododd Miss Bethan James bod yr awdurdod wedi trefnu gweithdai ar 28/29 Tachwedd i bwrpas trafod hunan arfarniadau ysgol gyfan ac fe fydd yn cymryd mantais o'r gweithdai i gyfeirio at gwblhau hunan arfarniad Addysg Grefyddol.

Gwnaed sylw gan Aelod y byddai arweiniad i gydlynwyr Addysg Grefyddol yn fuddiol iawn.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

**8. ADRODDIAD AROLWG THEMATIG ESTYN**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi o gyflwyniad gan ESTYN ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd a oedd yn nodi prif ganfyddiadau ESTYN yn deillio o ymweliadau ag 20 ysgol uwchradd, cyfweliadau ac arsylwadau gwersi yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod er gwybodaeth.**

**9. ARWEINYDDIAETH A CHEFNOGAETH CYSAG**

**Penderfynwyd: Oherwydd prinder amser i ohirio ystyried yr uchod.**

**10. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2013 yng Nghaernarfon.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4.30 pm

**CADEIRYDD**

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:
- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| |
|---|
| **Manylion cyswllt:** |
| **Enw (Clerc CYSAG):** |
| **Cyfeiriad:** |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:YSGOL EDMWND PRYS**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Gwelwyd cynnydd da ar draws yr ysgol mewn Addysg Grefyddol.

Y CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
Mae'r pwyslais cynyddol ar sgiliau, medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn ysgogi gweithgareddau amrywiol ac annibynnol. O edrych ar samplau gwaith a llyfrau'r disgyblion gwelir amrywiaeth o gyflwyniadau sy'n adlewyrchu'r sgiliau.
Rhoddir brofiadau amrywiol a heriol i'r disgyblion hynaf tra bod sgiliau darllen a chofnodi y Cyfnod Sylfaen yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Fframwaith Genedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.
Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agweddau bositif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Maent hefyd yn hyrwyddo sgiliau trafod, gwrando ac ymateb i eraill yn dda iawn.
Ar ddiwedd cyfnodau allweddol mae pob disgybl yn cyflawni Deilliant 5 a llynedd roedd tri chwarter disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Deilliant 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol a Lles ac Amrywiaeth; mae y rhan fwyaf yn cyflawni Lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol yn CA2.
Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol âg elusennau dyngarol megis Ambiwlans Awyr, Plant mewn Angen, Macmillan ayyb.
Mae'r ysgol wedi mabwysiadu plentyn mewn gwlad dramor ac yn cyfrannu yn fisol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hwy gan gynnig eu barn eu hunain. Oherwydd natur y themau mae lleiafrif iawn o'r disgyblion yn dechrau cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a brnau am gwestiynau sylfaenol. Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain oherwydd natur y themau mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN/ CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Sicrhau bod darnau ysgrifenedig estynedig yn cael eu cyflwyno yn dymhorol
- Sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnwys yn y pwnc.
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Ceir disgwyliadau uchel gan yr athrawes a chynhaliaeth gyson.
- Rhoddir bri ar waith dosbarth mewn gwasanaethau ysgol ac arddangosfeydd dosbarth.
- Gwneir defnydd helaeth o wefannau megis HWB a Cynnal fel adnoddau rhyngweithiol.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ardraws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan athrawes CPA o flwyddyn 3 i 6.
- Fel canlyniad i hyfforddiant eang, archebu adnoddau cyfoethog sydd yn dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o'r maes y mae'r ddarpariaeth yn dda ar draws y cyfnod.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Mae dulliau asesu manwl yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant.

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

**Materion i gael sylw**

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Parhau i osod MPLl a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy √ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.

Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.

Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Rhoddir cyfleoedd i bob disgybl gymryd rhan naill ai'n gyhoeddus neu trwy fyfyrio.

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.

Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig yn y gymuned.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda gydag agweddau rhagorol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- **Sicrhau fod A ar y C dosbarth/adran(CS) yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion**
- **Datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur**
- **Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag A ar y C**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: I W Jones (Pennaeth)

Dyddiad: 21/01/14

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Brynrefail**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**CA3**

Unwaith eto eleni mae'r safonau yn CA3 yn **dda** gyda 93.3% yn cyrraedd Lefel 5+ sydd yn cymharu'n **ffafriol** gyda chanrannau'r sir a Chynnal, a 50.0% yn cyrraedd lefel 6+. Mae canran Lefel 7+ yn gyson a llynedd (12.2% ac 11.9%) er yn ychydig yn is na'r pynciau dyneiddiol eraill. Gosodwyd targed o 92.5% ar gyfer 2012 a llwyddwyd i gyrraedd 93.4% gan basio'r targed o 0.9%. Mae bwlch o 11.3% rhwng y bechgyn a'r merched sydd yn cyrraedd Lefel 5+, ac er fod yr adran yn gweithio i gau'r bwlch, mae'r canran yma yn is na phatrwm y sir a Chynnal.

**CA4**

Yn 2012, mae canran A*-A yr adran o 25.00% yn **rhagori** ar y canrannau sirol a chenedlaethol. Yn 2012 roedd **10** allan o'r 16 dysgwr wedi ennill gradd C neu uwch gan roi canran o 62.5%. Dylid ystyried fod y grwp hwn yn wanach na'r arfer ond er hynny roedd y gweddillebau yn bositif. Yn 2012, roedd canran A*- G yr adran yn 100% ac mae wedi bod felly ers 1996. Yn 2010, roedd canran A*-A yr adran yn 50.0%, y canran A*-C yn 87.5% a'r canran A*- G yn 100%. Yn 2011, roedd canran A*-A yr adran yn 47.4%, y canran A*-C yn 84.2% a'r canran A*-G yn 100%. Dros gyfnod treigl o dair blynedd felly (2010 - 2012), mae canran A*-A yr adran o 40.8% yn **sylweddol uwch** na'r canrannau sirol a chenedlaethol tra bod y canran A*-C o 78.1% ac A*-G o 100% yn **rhagori** ar y canrannau sirol a chenedlaethol. Yn 2012, mae mwyafrif y dysgwyr (75.00%) wedi cyrraedd neu wella'u gradd darged. Gall y canran bechgyn/merched dros gyfnod treigl fod yn gamarweiniol gan fod yna 36 o enethod wedi dilyn y pwnc o'i gymharu a 7 o hogiau. Mae canran A*-A y genethod dros y cyfnod treigl yn rhagori ar 42.9% o'i gymharu a'r bechgyn sy'n 16.7%. Fodd bynnag, mae canran A*-C y genethod o 82.5% a'r bechgyn o 75.0% yn llawer agosach tra bo'r canlyniadau A*-G yn gyfartal ar 100% yr un. Ar hyn o bryd, ar ol sefyll arholiad ar yr uned gyntaf, mae canran A*-A y myfyrwyr presennol yn 63.6%, y canran A*-C yn yn 90.9% a'r canran A*-G yn 100%. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2013 yn edrych yn ffafriol iawn.

**CA5**

**UG -** Eleni, mae canran A yr adran o 33.3% yn **sylweddol uwch** na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Yn arholiadau'r haf 2012 roedd 3 allan o'r 9 dysgwr wedi ennill gradd A. Yn ystod y cyfnod treigl, mae canran gradd A yr adran o 28.1% yn **sylweddol uwch** na'r canrannau sirol a chenedlaethol tra bod y canran A-E o 85.2% yn **rhagori** ar y canran sirol ond yn ychydig is na'r canran cenedlaethol. Dros y cyfnod treigl, gellir dweud fod y gymhariaeth rhwng y genethod a'r bechgyn yn gamarweiniol gan fod yna 16 o enethod wedi dilyn y pwnc tra bod 7 o fechgyn wedi dilyn y pwnc yn 2010 a 2011. O ganlyniad i hyn, fe welir bod canran gradd A y bechgyn o 35.0% yn **uwch** na chanran A y genethod sy'n 22.2%. Mae hyn yn wir hefyd am y canrannau A-E lle mae'r bechgyn yn **rhagori** gyda chanran o 90.0% o'i gymharu a'r genethod o 88.9%. (O.N. Cafodd y bechgyn ganran o 100% wedi i'r un disgybl a fethodd yn haf 2011 lwyddo wrth ail eistedd un uned yn Ionawr 2012). Oherwydd nifer bychan y dosbarth yn ogystal ag amgylchiadau personol rhai unigolion, mae'r canrannau yn gallu bod yn gamarweiniol. Dylid cofio fod y disgyblion wedi gwneud yn well neu gystal (76.5%) yn y pwnc o gymharu a'u pynciau eraill. Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau ar lefel disgyblion unigol yn yr arfaniad CA5 llawn. Yn dilyn arholiadau Ionawr 2013;-

- Gwelir fod y cyfanswm a'r canran marciau wedi codi mewn un uned o 55% i 60.5%
- Mae rhai disgyblion wedi gwella'u marciau/graddau
- Mae'r canran A/C wedi cynyddu o 55.6% i 60.5% ac A/E o 66.7% i 77.8%.

**LEFEL A**

Eleni mae canran A yr adran o 14.3% a'r canran A-E o 85.7% yn **is** na'r canranau sirol a chenedlaethol.Yn arholiadau'r haf 2012 cafodd **6** allan o'r 7 dysgwr radd E neu uwch ond yn anffodus, cafwyd methiant yn y pwnc am y tro cyntaf ers 2003. (O.N. Ynglyn a'r disgybl a fu'n aflwyddiannus, mae'n deg pwysleisio nad oedd wedi dilyn y pwnc yn TGAU. Yn ogystal, fe ddaeth i flwyddyn 12 wedi ennill un gradd B a dwy radd C allan o'i holl bynciau TGAU. Gofynnwyd i mi roi cyfle iddi ddilyn cwrs UG yn y pwnc lle llwyddodd i gael gradd E. Ar ol gwrthod pob cyngor, fe ddewisodd gario mlaen efo'r cwrs Lefel A ond yn anffodus bu'n aflwyddiannus pan gafodd gyfartaledd o 38.5%. Roedd angen 40% i lwyddo). Roedd graddau A ac A-E y bechgyn yn rhagori ar y genethod. Ni lwyddodd yr un geneth i gael gradd A tra bod canran gradd A y bechgyn yn 25%. Hefyd gan fod un ferch wedi bod yn aflwyddiannus, roedd canran A - E y bechgyn yn 100% o gymharu a chanran y merched o 66.7%. Dros gyfnod treigl o dair blynedd mae canran A y bechgyn yn 25% a'r canran A-E yn 100%. O gymharu, mae canran A y genethod yn 16.7% a'r canran A - E yn 88.9%. Dros gyfnod treigl o dair blynedd mae canran A yr adran o 21.4% yn agos iawn i'r canran sirol o 21.6% a'r canran cenedlaethol o 22.0% tra bod y canran A-E o 95.2% yn **rhagori** ar y canran sirol o 86.5% a'r canran cenedlaethol o 91.3%. Dylid cofio hefyd fod y disgyblion wedi gwneud cystal neu well (83.3%) yn y pwnc o gymharu a'u pynciau eraill. Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau ar lefel disgyblion unigol yn yr arfarniad CA5 llawn.

**Materion i gael sylw**

Yng nghyfnod CA3, mae'n rhaid gweithredu yn unol ag argymhellion CBAC ynglyn a'r broses asesu yn CA3. Hefyd fe fydd yr adran yn anelu i gael cynnydd yn lefel 7 yn ogystal a chau'r bwlch rhwng y bechgyn a'r genethod.

Yng nghyfnod CA4, mae'r adran yn anelu i gael mwy o ddisgyblion i dderbyn gradd A*-A yn ogystal a chodi'r canran A*-C.

Yng nghyfnod CA5, mae'r adran yn anelu i gynyddu'r canran A-E yn yr arholiad UG yn ol i lefel y ddwy flynedd flaenorol yn ogystal a chael llwyddiant o 100% unwaith eto yn yr arholiad Lefel A.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dywed adroddiad ESTYN Tachwedd 2012 fod Ysgol Brynrefail yn "bodloni'r holl ofynion statudol" mewn perthynas ag Addysg Grefyddol statudol. Mae dau athro Addysg Grefyddol arbenigol yn yr ysgol a thim o athrawon sy'n darparu agweddau o'r maes drwy gyfrwng amrywiol gyfleoedd (gweler yr atodiad).
- Gweler isod grynodeb o'n canfyddiadau mewn perthynas a monitro'r addysgu;-

**BARN: DA**

Mae'r adran yn cynllunio gwersi yn effeithiol ac mae'r aelodau yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes. Defnyddir ystod eang o ddulliau addysgu gan gynnwys taflunydd pan fo'r angen. Mae'r adran yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes. Mae'r adran yn rhoi sylw priodol i ddatblygu sgiliau Cyfathrebu a Meddwl mewn gwersi ac fe wneir hyn yn dra effeithiol. Mae'r adran yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau mewn gwersi gan gynnwys trafodaethau dosbarth gyfan, trafod mewn grwpiau a pharau, darllen, didoli cardiau, fframweithaiu ysgrifennu yn ogystal â rhoi sylw i ddulliau dysgu gweledol a chlywedol. Mae'r adran yn cyflwyno gwaith gwahaniaethol ac yn gwahaniaethu drwy ganlyniad mewn gwersi. Mae'r adran yn hyrwyddo dysgu dwyieithog. Mae'r adran yn rhoi llawer o bwyslais ar hyrwyddo cyfle cyfartal; delir â materion sydd yn ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anableddau mewn ffordd weithredol a blaengar. Mae cynlluniau gwaith manwl yr adran sydd gyda amcanion dysgu clir yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol a chysondeb ar draws yr adran. Mae gan bob aelod o'r adran ddisgwyliadau uchel o'r dysgwyr o ran safon gwaith ac ymddygiad. Rheolir ymddygiad yn effeithiol yn y gwersi. Mae'r adran sefydlu perthynas waith gynhaliol da iawn gyda'r dysgwyr sy'n hyrwyddo'r dysgu. Mae'r amgylchedd dysgu diogel yn yr ystafelloedd ddosbarth yn hyrwyddo dysgu effeithiol a mwynhad y dysgwyr.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau (gweler uchod)**

**Materion i gael sylw**

Mae angen datblygu mwy o weithgareddau heriol yn CA3 er mwyn sicrhau rhagoriaeth.

Mae angen targedu cyfleon ar gyfer ymestyn y goreuon a chynnig mwy o arweiniad i'r gweiniaid yn y tasgau estyngedig.

Adnabod cyfleoedd yn y Cynllun Gwaith i allu gosod gwaith cartref penodol I sicrhau cysondeb

| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | ***Nac ydy*** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Dyfynnir o adroddiad ESTYN Tachwedd 2012;-<br>Mae gwersi addysg grefyddol a sesiynau cofrestru boreol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion........rhoddir pwyslais ar drin pob disgybl fel unigolyn gan barchu ei gefndir a'i gredoa."<br>Bernir fod yr arfer o fod gwahanol disgyblion yn cyfrannu yn ddyddiol o'r llwyfan tuag at wasanaethau boreol yn nodwedd gadarnhaol.<br>Gweler yr atodiad isod sy'n isod sy'n crynhoi'r amrywiol gyfraniadau tuag at Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Gwirio a sicrhau fod cysondeb yn y gwasanaethau a gynhelir yn y dosbarthiadau dysgu. | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

**<u>Atodiad – Profiadau / cyfleoedd sy'n cyfoethogi Addysg Grefyddol yn yr ysgol;-</u>**

**Ysgol Brynrefail**

**Addysg Grefyddol – Gofynion Statudol CA4/ CA5**

Mae cwricwlwm Ysgol Brynrefail yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol. Mae'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas. Bydd hyn yn paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion.

**Cyfnod Allweddol 4**

Dyma grynodeb o sut mae'r ysgol yn gweithredir hyn;-

**1. Gwasanaeth / Myfyrdod dyddiol yn y neuadd neu mewn ystafell dosbarth yn cynnwys myfyrdod a gweddi**

**2. BAC / Gwersi pynciau amrywiol:**

- Modiwl penodol yn ymwneud â 'Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth' gan ystyried gwahanol gredoau y chwe prif grefydd y byd.
- Iechyd a lles emosiynol a thrafod 'Erthylu' (Hafan Cymru)
- Diwylliannau'r Byd – Beth sy'n effeithio ar bobl a'u ffordd o fyw yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol
- Cymharu diwylliant Cymru â diwylliannau eraill y byd
- Modiwl ar Byw'n Gynaliadwy
- Democratiaeth a llais yr unigolyn, atebolrwydd o fewn democratiaeth ar wahanol haenau
- Gwneud penderfyniadau gwleidyddol
- Crefydd – dirywiad crefydd o fewn y gymdeithas leol wrth ystyried gwahanol diwylliannau a'u dylanwadau
- Trychinebau Naturiol diweddar ledled y byd
- Rhyfel a Heddwch – cerddi rhyfel / cymodi
- Hawliau'r unigolyn, ystyried teimladau a safbwyntiau eraill
- Iechyd a ffitrwydd personol – hunanbarch
- Perthnasoedd a Iechyd Rhywiol

**3.Gweithgareddau cyfoethogi:**

- Ymgyrch Operation Christmas Child
- Diwrnod Masnach deg – empathi tuag at sefyllfa eraill mewn gwledydd tlawd a sut i wneud gwahaniaeth
- Cyfanogiad cymunedol – pob disgybl CA4 yn gwirfoddoli 15awr I gynorthwyo eraill yn y gymuned leol
- Perfformiad dramatig 'Hawl' Cwmni'r Fran Wen, a gweithdai dilynol

## Cyfnod Allweddol 5

### 1.Gwasanaeth / Myfyrdod dyddiol yn y neuadd neu mewn ystafell dosbarth yn cynnwys myfyrdod a gweddi

### 2. Craidd y BAC

- Un modiwl yn edrych yn benodol ar wahaniaethau diwylliannol ac agweddau at rywioldeb, oedd yn manylu ar ddatganiadau o'r Beibl gan gymharu hyn gyda chrefyddau eraill megis Iddewiaeth, Islam, Cristionogaeth, Dyneiddiaeth, Hindwiaeth, Bwdaeth a Sikhiaeth.
- Rhywioldeb yn ddewisol neu'n enidol? Trafodaeth grwp wedi gwaith ymchwil
- Uned o waith yn edrych ar effaith bwlio ac yn paratoi ac arwain gweithgareddau gwrth-fwlio gyda disgyblion blwyddyn 7 yn canolbwyntio ar berthnasoedd positif a pharchu eraill.
- Arwain a chydgordio ymgyrch Operation Christmas Child yr ysgol. Golyga hyn drefnu siaradwr gwadd, ymchwilio i waith yr elusen, cyflwyno hyn i eraill, annog a chymell disgyblion a staff yr ysgol i gymryd rhan yn yr ymgyrch. Llynedd nododd yr elusen mai Ysgol Brynrefail gasglodd y mwyaf o focsus yng Ngogledd Cymru.
- Hawliau'r unigolyn a rhinweddau democratiaeth. Gweld democratiaeth ar waith yn Nhy'r Cyffredin a'r Cynulliad. Ymweliadau gan wleidyddion adnabyddus. Ffug refferndwm a ffug etholiad yn arddangos gweithrediad democratiaeth
- Gwerthfarogi cymdeithas amlddiwylliannol
- Gwerthfawrogi diwylliant hanesyddol Cymru
- Ystyried gwahanol ddiwylliannau yn lleol a byd-eang (Sgiliau Technoleg Gwybodaeth)
- Cymharu diwylliant yr ardal leol (ymchwilio a gwneud cyflwyniad) gydag ardal dinesig Caerdydd drwy gyfrwng fideo gynhadledda
- Modiwl ar Byw'n Gynaliadwy
- Ymchwilio i wrthdaro rhwng gwledydd, cefndir y gwledydd, ecnomi, diwylliant, iaith, y problemau, mudiadau dyngarol ar waith yn gwledydd
- Siaradwr gwadd o Cymrth Cristionogol yn ymweld i roi cyflwyniad waith y mudiad ar hyd a lled y byd.

### 3.Gweithgareddau cyfoethogi:

- Gwasanaeth Nadolig – yn Eglwys Llanberis. Cynnal gwasanaeth crefyddol gyda'r mwyafrif o'r Chweched Dosbarth yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd
- Parti Pendalar - trefnu a chynnal Parti Nadolig i ddisgyblion Ysgol Addysg Arbennig, gan gynnwys codi arian i brynu anrhegion o safon i bob unigolyn. Paratoi bwffe, adloniant safonol a diddanu'r disgyblion a meithrin perthynas iach, bositif a chynhaliol.
- Cyfanogiad cymunedol – pob disgybl CA5 yn gwirfoddoli 30awr i gynorthwyo eraill yn y gymuned leol
- Eisteddfod Ysgol – hybu diwylliant a chydadweithio rhwng disgyblion o bob oed, galu a chefndir gan feithrin y gorau o bawb. Myfyrwyr y chweched yn trefnu, hyfforddi, cynnal ac arwain yr holl weithgareddau drwy gydol y dydd a'r sesiwn nos. Gweithgaredd anwytho heb ei ail.
- Pwyllgorau amrywiol – yn trefnu a chynnal gweithgareddau amrywiol e.e. Diwrnod Plant Mewn Angen, Masnach Deg, Cydweithio gydag Ysgolion Cynradd y dalgylch,Clwb ar ôl Ysgol.
- Codi arian tuag at wahanol elusennau e.e. WaterAid, Comic Relief, Sport Relief, Marie Curie, Pabi Coch
- Grwp Trafod Chweched Dosbarth – amser cinio 2011-2012 – Parch John Pritchard ac Andrew Stettathri

**Cyfarfod CCYSAGauC, Caerdydd, 10 Hydref 2013 / *Wales Association of SACREs meeting, Cardiff, 10 October 2013***

Draft

**Ynys Môn / *Anglesey***
Bethan James

**Blaenau Gwent**
Chris Abbas
Gill Vaisey

**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***
Carys Pritchard

**Caerffili/ *Caerphilly***
Cllr Michael Gray
Vicky Thomas
Enfys Hawthorn

**Caerdydd / *Cardiff***
Carys Pritchard
Emily Hankins

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Aled Jones
Mary Parry
Meinir Wynne Loader
Helen Gibbon

**Ceredigion**
Alwen Roberts

**Conwy**
Phil Lord
N.C. Richter

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Phil Lord
Gavin Craigen

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Phil Lord

**Gwynedd**
Bethan James

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Cllr Ernie Galsworth
Carys Pritchard

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey
Sue Cave
Sharon Perry-Phillips

**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***
Jen Malcolm

**Casnewydd / *Newport***
Huw Stephens
Vicky Thomas

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***

**Powys**
John Mitson
Julie Pugh

**Rhondda Cynon Taf**
Carys Pritchard

**Abertawe / *Swansea***
Janet Neilson
Alison Lewis
Peter Llewellyn
Claire Fraser
Vicky Thomas

**Torfaen**
Marilyn Frazer
Emma Mohr
Vicky Thomas

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Carys Pritchard

**Wrecsam / *Wrexham***
Libby Jones
Tania ap Siôn

**Sylwedyddion / *Observers***
Leslie Francis

| Cofnodion | Minutes |
| --- | --- |
| **1. Croeso.**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Tania ap Sion, yr aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ôl Cynhadledd Genedlaethol CCYSAGauC a siaradodd am y gwahaniaeth rhwng y cyfarfod hwn a chyfarfodydd eraill CCYSAGauC. Cyfeiriodd Tania ap Sion at y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 27 Mawrth 2014, a fydd yn dilyn y fformat arferol ac yn cynnwys cyflwyniadau. | **1. Welcome.**<br>Chair, Tania ap Sion welcomed members to the meeting which took place after the WASACRE National conference and talked about the difference in this meeting from other WASACRE meetings. Tania ap Sion directed members to the Next meeting on Thursday 27 March 2014, which will follow the usual format and will have presentations. |
| **2. Adfyfyrio tawel.**<br>Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gymryd ennyd i fyfyrio ar ddigwyddiadau'r dydd yn y gynhadledd ac i baratoi ar gyfer y cyfarfod presennol. | **2. Quiet reflection.**<br>Chair asked members to take a moment to reflect on the day's events at the conference and to prepare for the present meeting. |
| **3. Ymddiheuriadau.**<br>Helen Bevan, Ruth Frost, Ramez Delpack, Ernie Galsworthy. | **3. Apologies.**<br>Helen Bevan, Ruth Frost, Ramez Delpack, Ernie Galsworthy. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, 19 Mehefin 2013**<br>Yn dilyn ychwanegu'r Cyngh. Huw George at restr y bobl a oedd yn bresennol cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod cywir o'r cyfarfod, gyda Carys Pritchard yn cynnig a Phil Lord yn eilio. | **4. Minutes of meeting held in Caernarfon, 19 June 2013.**<br>With the addition of Cllr Huw George to the attendees list the minutes were accepted as a true record of the meeting, proposed by Carys Pritchard and seconded by Phil Lord. |
| **5. Materion sy'n codi.**<br>Eitem 5. Cyflwyniad NAPfRE: Phil Lord REQM. Mae tair o'r pedair ysgol o'r rhaglen beilot yng Nghymru wedi cael eu hyfforddi fel aseswyr. Bwriedir cynnal rhaglen beilot Gymraeg. Rhoddwyd cyllid i gyfieithu'r holl adnoddau. Dylai ysgolion ddefnyddio'r deunyddiau 'rhad ac am ddim' i hunanasesu ac os ydynt yn dymuno cael eu hasesu'n ffurfiol byddai cost o £450.00 i bob ysgol. Eitem 7. Diweddariadau: Adolygiad Thematig Estyn. Atgoffodd Vicky Thomas yr aelodau, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod CCYSAGauC wedi ariannu hyfforddiant Cyfnod Allweddol 3 i athrawon AG mewn lefelu gwaith disgyblion fel a nodir yn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyflwyno Addysg Grefyddol. Felly mae un o'r | **5. Matters arising.**<br>Item 5. NAPfRE presentation: Phil Lord REQM. Three out of the four schools from the Welsh pilot have been trained as assessors. There will be a Welsh language pilot. Funding has been given for all resources to be translated. Schools should use the 'free' materials to self-assess and if they wish to be assessed formally there would be a cost of £450.00 per school. Item 7. Up-dates: Estyn Thematic Review. Vicky Thomas reminded members that since the report was published WASACRE has funded Key Stage 3 training for RE teachers in levelling pupil work as outlined in the National Exemplar Framework for Religious Education. Therefore one of the recommendations has been addressed already. Marry Parry suggested that WASACRE could |

Draft

| | |
|---|---|
| argymhellion wedi cael ei roi ar waith yn barod. Awgrymodd Mary Parry y gallai CCYSAGauC ofyn i ysgolion pa effaith y mae'r hyfforddiant wedi'i chael ar ddysgu'r disgyblion a'u hymarfer addysgu eu hunain trwy gynnal proses adborth ffurfiol. Eitem 7. Diweddariadau: Adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAGau. Cadarnhaodd Tania ap Sion fod yr adroddiad hwn wrthi'n cael ei gyhoeddi ac y bydd yn cael ei gylchredeg i'r CYSAGau unwaith y byddai hyn wedi cael ei wneud. | ask schools what impact the training has had on the pupil's learning and their own teaching by carrying out a formal feedback procedure. Item 7. Updates: Welsh Government review of SACRE annual reports. Tania ap Sion confirmed that this report is in the process of being published and will be circulated to SACREs when this had been done. |
| **6. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2013.** | **6. Report from the Executive Committee held on 4 Hydref 2013.** |
| Cyflwynwyd yr adroddiad i'r aelodau a thynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at Eitem 8 ac Eitem 11. Eitem 8. Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Tania ap Sion fod gan CCYSAGauC bellach ddolen gyswllt newydd gyda Llywodraeth Cymru, sef Ms Nia Mair Jones, a'n bod ni eisoes wedi amlygu rhai meysydd i'w trafod yn y dyfodol a'n bod yn meithrin perthynas dda iawn â Llywodraeth Cymru, fel yr oeddem wedi'i wneud yn flaenorol trwy Denize Morris, perthynas yr ydym wedi gweld ei heisiau dros y blynyddoedd diwethaf. Eitem 11. U.F.A. Amlygodd y Cadeirydd y mater yma, gan ei gysylltu â'r drafodaeth am waith CCYSAGauC i hyfforddi a rhoi cymorth i athrawon ac ysgolion. Awgrymodd Vicky Thomas y gallai Hunan Arfarnu mewn AG ac Addoli ar y Cyd fod yn angen dynodedig o ran hyfforddiant. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor Gwaith yn canolbwyntio ar hwn fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. Eitem 6. Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Eglurodd y Cadeirydd beth oedd y sefyllfa o ran y bleidlais ar gyfer y lle sydd ar gael ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac ymddiswyddiad Brian Rogers. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i'r Cyngh. Michael Gray fod yn amyneddgar wrth i ni ymdrin â'r sefyllfa hon a chadarnhaodd fod angen meddwl yn eglur am hyn ac y byddai'r Cyfansoddiad yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2014. | The report was presented to members and the Chair drew members' attention to Item 8 and Item 11. Item 8. Welsh Government. Tania ap Sion confirmed that WASACRE now has a new link with Welsh Government, Ms Nia Mair Jones and that we have already highlighted some areas for discussion in future and that we are forging a very good relationship with Welsh Government, as we had previously done through Denize Morris, and which we have missed in recent years. Item 11. A.O.B. The Chair highlighted this issue, linking it to the discussion about WASACRE's work in training and supporting teachers and schools. Vicky Thomas suggested Self Evaluation in RE and CW could be an identified training need. The Chair confirmed that the Executive committee will focus on this as an agenda item at the next Executive meeting. Item 6. Executive committee members. The Chair explained the situation with regard to the ballot for the position available on the WASACRE Executive committee and the resignation of Brian Rogers. Chair also asked Cllr Michael Gray for his patience whilst we deal this situation and confirmed that it needed to be thought through clearly and that the Constitution would be an agenda item at the next Executive meeting in February 2014. |

Draft

| | |
|---|---|
| **7. Gohebiaeth.**<br>Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi dod i law<br><br>**8. U.F.A.** Dim<br><br>**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf.**<br><br>Dydd Iau 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngh. Michael Gray am wahodd CCYSAGauC i Gaerffili ar gyfer cyfarfod y gwanwyn a diolchwyd hefyd i Garmon am gyfieithu yn y cyfarfod ac am gyfieithu yn y Gynhadledd Genedlaethol. Diolchodd y Cyngh. Michael Gray i CCYSAGauC am y gynhadledd a diolchodd y Cadeirydd i Carys Pritchard a staff Consortiwm Canolbarth y De am eu cymorth i drefnu'r digwyddiad.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd CCYSAGauC a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith yn cael eu rhannu yn y CCB ym mis Mehefin 2014 ar gyfer blwyddyn ymlaen llaw. | **7. Correspondence.**<br>No correspondence received<br><br>**8. A.O.B.** None<br><br>**9. Date of next meeting.**<br><br>Thursday 27 March 2014 in Caerphilly.<br><br>The Chair thanked Cllr Michael Gray for inviting WASACRE to Caerphilly for the spring meeting and thanks were also given to Garmon for the translation of the meeting and for the translation of the National conference. Cllr Michael Gray thanked WASACRE for the conference and the Chair thanked Carys Pritchard and the staff at Central South East Consortium for their assistance in organising the event.<br><br>The Chair confirmed that dates for WASACRE meetings and Executive meetings will be shared at the AGM in June 2014 for a year in advance. |

Draft

## Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas, 2012 – 2013

1. Cyfarfu'r Gymdeithas deirgwaith: 26 Mehefin 2012 yng Nghyfforrdd Llandudno, 23 Tachwedd 2012 ym Merthyr Tudful, a 22 Mawrth 2013 yng Nghasnewydd. Rydym yn ddiolchgar i'r CYSAG'au a'r awdurdodau lleol a'n croesawodd am eu cefnogaeth hael a'u croeso.

2. Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith deirgwaith, yng Nghaerdydd: 16 Hydref 2012, 6 Chwefror 2013, a 16 Mai 2013.

Bu gan y Pwyllgor Gwaith raglen lawn drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

(a) gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn rôl gynghorol yn ystod y gwaith o gynhyrchu'r ddogfen, *Review of SACRE Reports*;

(b) ymateb i ymgynghoriad gan Estyn mewn perthynas ag Adolygiad Thematig Estyn o Addysg Grefyddol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (gan gydnabod bod y penderfyniad i gynnal adolygiad thematig o'r pwnc wedi deillio o gais a wnaed i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y Gymdeithas);

(c) cynllunio cynhadledd nesaf y Gymdeithas ar gynhelir yn Hydref 2013; bydd yn cynnwys, fel siaradwyr, Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Mark Campion o Estyn;

(d) darparu hyfforddiant cenedlaethol, ar gyfer athrawon uwchradd AG, yn y defnydd o lefelau mewn AG yng nghyfnod allweddol 3; yr oedd hyn yn ymateb i anghenion a nodwyd gan y Gymdeithas o ganlyniad i broses Llywodraeth Cymru o safoni cyfnod allweddol 3;

(e) trafod a monitro datblygiadau yng Nghymru sy'n arwyddocaol i rôl CYSAG'au a'u dyletswydd statudol i fonitro a chynorthwyo Addysg Grefyddol, megis y trefniadau rhanbarthol newydd ynglŷn â chonsortia a'r adolygiad o'r cwricwlwm;

(f) cymryd rhan yng ngwaith cyrff sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol y tu hwnt i Gymru, megis Cyngor AG Cymru a Lloegr a'r Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol;

(g) gweithio gyda Chyngor AG Cymru a Lloegr i ddatblygu a threialu fersiwn wedi'i addasu o'r Marc Safon AG yng Nghymru.

Drwy gydol y flwyddyn, mawr werthfawrogwyd y berthynas gefnogol sy'n bodoli rhwng y Gymdeithas a PYCAG.

**6. Cyfrifon.** Yn ystod y flwyddyn, bu'r incwm £3384.66 yn fwy na gwariant; yr oedd hyn yn welliant ar y sefyllfa yn 2010/11, pan fu'r incwm £2184.37 yn fwy na gwariant.

Cychwynnwyd y flwyddyn ariannol gyda gweddill o £14939.22, ac yr oedd y gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £18812.88. Arhosodd cyllid CCYSAGauC, felly, mewn cyflwr iach, ac mae hyn wedi cynorthwyo CCYSAGauC i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig am y flwyddyn.

Prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2011/12 oedd tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAG'au. Parhaodd lefel y llog banc i fod yn isel. Derbyniodd yr aelodau argymhelliad y Trysorydd y dylai'r tanysgrifiad godi o £400 i £408.

**7. Aelodau newydd y Pwyllgor Gwaith.** Yng Nghyfarfod Blynyddol haf 2012, cadarnhawyd bod Bethan James wedi cymryd lle Gill Vaisey fel cynrychiolydd PYCAG ar y Pwyllgor Gwaith. Cafodd Phil Lord (CYSAG Sir Ddinbych) ei ethol, a Rheinallt Thomas (CYSAG Ynys Môn) ei ailethol, i'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod 2012–2015.

**8. Cyflwyniadau gan PYCAG a CCYSAGauC.** Derbyniodd y Gymdeithas y cyflwyniadau diddorol a gwerthfawr canlynol:

- CYSAG'au a'r Gymuned Leol: arolwg CCYSAGauC gan Tania ap Siôn
- Agweddau Pobl Ifanc at Amrywiaeth Grefyddol, gan yr Athro Leslie Francis
- Addysg Bellach: Addysg Grefyddol a Chaplaniaeth, gan Jonathan Martin ac Andrew Morton
- Addysg Grefyddol yn y Sector Addysg Uwch, gan Lynda Maddock
- Hyfforddiant CA3 cenedlaethol ynglŷn â gweithredu lefelau mewn Addysg Grefyddol, gan Gavin Craigen
- Y Marc Safon Addysg Grefyddol, gan Phil Lord
- Cyflwyniadau gan ymgynghorwyr ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen

**CYMDEITHAS CYSAG'AU CYMRU**

**CYFARFOD BLYNYDDOL — Mehefin 19eg, 2013**

**ADRODDIAD GAN: Y Trysorydd**

**PWNC: Adroddiad am y flwyddyn ariannol 2012/2013**

---

**ADRODDIAD AR GYFER: Gwybodaeth a Phenderfyniad**

---

**<u>CYFRIFLEN 2012/2013</u>**

Ynghlwm, ar ffurf atodiad i'r adroddiad hwn, y mae'r Gyfriflen archwiliedig am y flwyddyn ariannol 2012/2013. Bydd yr Aelodau'n nodi i'r gwariant fod £1469.31 yn fwy na'r incwm yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr oedd tri thanysgrifiad heb ddod i law; pe baent wedi eu talu erbyn y dyddiad hwnnw, byddai hynny wedi peri lleihad o £1224.00 yn y gorwariant yn ystod y flwyddyn, gan adael gorwariant o £245.31 yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â thanwariant o £3384.66 yn y flwyddyn 2011/2012. Cychwynnwyd y flwyddyn ariannol gyda gweddill o £18812.88, ac yr oedd y gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £17343.57. Mae cyllid CCYSAGauC, felly, yn parhau i fod mewn cyflwr iach iawn, er ei fod yn ostyngiad o £1469.31 o'i gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd 2011/2012. Mae CCYSAGauC, felly, mewn sefyllfa gref i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig.

a) **<u>Derbyniadau</u>**

Megis mewn blynyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2012/2013 oedd y tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAG'au. Bydd yr Aelodau'n cofio i benderfyniad gael ei wneud, yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2001, i godi lefel y tanysgrifiadau yn unol â lefel chwyddiant bob blwyddyn. Y tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2012/2013, felly, oedd £408, sydd wedi deillio ar incwm o £7752. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli tanysgrifiadau 19 o GYSAG'au, gan nad oedd 3 ChYSAG wedi talu eu tanysgrifiadau erbyn 31ain Mawrth, 2013. Pleser yw gallu adrodd bod dau danysgrifiad pellach wedi eu talu erbyn hyn, a bydd y tanysgrifiadau hwyr yn cael eu cofnodi yng nghyfrifon 2013/2014. Yn anffodus, er i nifer o lythyrau atgoffa gael eu hanfon, y mae un CYSAG yn dal heb dalu ei danysgrifiad am 2012/2013.

Ffynhonnell incwm arall CCYSAGauC oedd llog banc, ac yr oedd hwn yn £3.80 yn 2012/2013, sef yr un swm ag yn 2010/2011 a 2011/2012. Gobeithir y bydd y llog sy'n cael ei dalu ar gyfrifon CCYSAGauC yn gwella yn y dyfodol, ond bydd cryn amser cyn y derbynnir incwm sylweddol drwy log banc.

b) **<u>Gwariant</u>**

Yn ystod 2012/2013, bu'r prif feysydd gwariant fel a ganlyn:–

Un gweithgarwch pwysig i GCYSAGauC yn ystod 2012/2013 oedd ariannu hyfforddiant mewn darparu Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3; cyfanswm y gost oedd £4096.38. Cafodd hyn ei ddarparu drwy drefniadau consortiwm ar draws Cymru gan Mr Gavin Craigen a Ms Llinos Rees, a derbyniwyd adborth rhagorol. Mae hon yn enghraifft bwysig o'r rôl y gall CCYSAGauC ei chwarae o ran ategu Addysg Grefyddol, ac roedd yn golygu mai'r unig gostau yr oedd yn rhaid i ysgolion eu hariannu oedd costau athrawon llanw er mwyn rhyddhau eu hathrawon eu hunain, a'r costau teithio ar gyfer cyrraedd y lleoliadau hyfforddi.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd y swm o £642.51 er mwyn cynnal gwefan CCYSAGauC. Bydd yr Aelodau'n cytuno bod gwefan CCYSAGauC yn adnodd ardderchog, sydd wedi bod yn werthfawr o ran codi proffil y sefydliad.

Yr oedd yr honorariwm a dalwyd i'r Ysgrifennydd yn £1500. Bydd yr Aelodau'n cofio bod gan yr Ysgrifennydd hawl i dderbyn honorariwm o £1500 y flwyddyn, a gwnaed y taliad hwn unwaith eto yn 2011/2012. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ad-daliad o gostau ysgrifenyddol a chostau llungopïo a chylchredeg papurau yn ystod y flwyddyn, a rhagwelir y bydd taliad sylweddol yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, mae costau wedi eu lleihau drwy gylchredeg papurau ar gyfer cyfarfodydd yn electronig, a thrwy osod papurau a dogfennau ar y wefan. Fe welir bod taliad o £375.00 wedi ei wneud, yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â'r honorariwm ysgrifenyddol ar gyfer 2009/2010. Cyfeiriwyd at hyn yn Adroddiad y Trysorydd i Gyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2011/2012, pan nodwyd bod y siec, a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/2010, heb ei chyflwyno i'w thalu. Pleser yw gallu adrodd bod cyfeiriad post y derbynnydd wedi ei eglurhau, a bod y taliad wedi ei wneud erbyn hyn.

Cafwyd traul bellach, yn ystod y flwyddyn, mewn cysylltiad â chostau cynnull cyfarfodydd CCYSAGauC. Bu'r draul hon yn gyfanswm o £1585.73, o'i chymharu â £517.53 yn 2011/2012 ac £871.73 yn 2010/2011, ac mae'n adlewyrchu cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC a'i Phwyllgor Gwaith. Er bod costau cynnal cyfarfodydd yn codi, mae'r costau'n arbennig o uchel eleni oherwydd i rai o'r anfonebau am gostau yr aethpwyd iddynt ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2011/2012 wedi dod i law yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gan achosi i'r gost derfynol fod dros £1000 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm costau hurio ystafelloedd oedd £168.37, o'i gymharu â £90.20 yn 2011/2012, tra bod cyfanswm cost cyfieithu dogfennau'n £1417.36, o'i gymharu â £427.33 yn 2011/2012.

Y swm a wariwyd ar deithio/llety Swyddogion yn 2012/2013 oedd £675.35, o'i gymharu â £380.25 yn 2011/2012. Mae hyn yn gynnydd sylweddol, ond mae'r costau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl nifer y cyfarfodydd a fynychir.

Yn ystod 2012/2013, mae CCYSAGauC wedi parhau i gyfrannu tuag at gostau cyhoeddi 'REflections' oddi mewn i 'Newyddion AG', a chylchredeg copïau unigol o 'REflections' i'w cynnwys yn y casys cadw y mae

CCYSAGauC yn eu cyflenwi i'r holl GYSAG'au. Yr oedd yr anfoneb a dderbyniwyd am 2012/2013 yn £510.14, sef codiad o 2% ar yr anfoneb am £500.14 a dderbyniwyd yn 2011/2012. Yr oedd y ffigwr hwn yn ddisgwyliadwy, gan mai'r arfer presennol yw i'r swm a gyfrennir at 'Newyddion AG' godi, o flwyddyn i flwyddyn, yn ôl yr un ganran ag a gymhwysir at y tanysgrifiad blynyddol.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae CCYSAGauC wedi talu cyfanswm o £240.00 mewn tanysgrifiadau. Mae hyn yn cynnwys talu'r tanysgrifiad i'r Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon AG, a thanysgrifiadau 2012 a 2013 i'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd. Y rheswm y gwnaed dau daliad eleni yw bod y ddwy anfoneb wedi eu derbyn yn yr un flwyddyn ariannol. Ni wnaed taliad am 2012/2013 i Gyngor AG Cymru a Lloegr, gan na dderbyniwyd yr anfoneb tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y taliad hwn yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn ariannol 2013/2014.

Gwahoddir yr Aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r gyfriflen atodedig.

## TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2013/2014

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol fesul CYSAG am aelodaeth o GCYSAGauC yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/2014, bydd yr Aelodau'n cofio i benderfyniad gael ei wneud yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2001 y byddai'r tanysgrifiad i GCYSAGauC, o hynny ymlaen, yn cael ei godi'n unol â chwyddiant.

Mae'n bwysig i GCYSAGauC ddilyn yr arferiad hwn er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddiwallu costau parhaus gweithgareddau CCYSAGauC, gan gynnwys talu treuliau, costau ysgrifenyddol, treuliau swyddogion, honoraria swyddogion, a'r cyfraniad at gost cyhoeddi 'REflections' yn 'Newyddion AG'. Yn ychwanegol at hynny, mae ar GCYSAGauC angen adnoddau digonol i ddiwallu costau digwyddiadau Cymru Gyfan pellach, gan gynnwys y Gynhadledd y bwriedir ei chynnal yn Hydref 2013, ac er mwyn galluogi'r Gymdeithas i gymryd rhan mewn mentrau eraill i ategu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd ar draws Cymru, megis yr hyfforddiant diweddar ar Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3. Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod gweddill sylweddol yn cael ei gynnal os yw CCYSAGauC i allu trefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach gyda hyder.

Yng ngolau'r uchod, a'r penderfyniad yng Nghyfarfod Blynyddol 2001 y byddai'r tanysgrifiad blynyddol i GCYSAGauC yn cael ei godi'n unol â chwyddiant o hynny ymlaen,

**ARGYMHELLIR** y dylai'r tanysgrifiad blynyddol fesul CYSAG am aelodaeth o GCYSAGauC yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/2014 gael ei bennu'n £417, sef codiad o 2.08% ar danysgrifiad 2012/2013.

**TALU TREULIAU**

Bydd yr Aelodau'n cofio i'r trefniadau canlynol ar gyfer talu treuliau gael eu cytuno yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2012:–

I. Talu 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n ymgymryd â busnes ar ran CCYSAGauC pan na allant hawlio'r gost oddi wrth eu CYSAG'au lleol, a gwneud ad-daliad ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;
II. ad-dalu i swyddogion, mewn perthynas â chynnal busnes CCYSAGauC, gostau gwirioneddol parcio pan eir iddynt;
III. pan ddefnyddir cludiant cyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu'r prisiau trên/bws gwirioneddol hyd at lefel y pris safonol, ar y ddealltwriaeth y manteisir ar drefniadau tocyn arbed ble bynnag y bo hynny'n bosibl;
IV. ad-dalu costau cynhaliaeth mewn perthynas â swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr mewn cyfarfodydd CCYSAGauC, ar y lefelau canlynol:–

    - brecwast — £4.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans brecwast, rhaid i swyddog fod wedi gadael cartref cyn 7.00am);
    - cinio canol dydd — £6.00 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans cinio canol dydd, rhaid i swyddog fod oddi cartref cyn hanner dydd ac ar ôl 2.00pm);
    - te — £2.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans te, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 6.30pm);
    - cinio gyda'r nos — £7.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans cinio gyda'r nos, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 8.30pm);

V. ad-dalu costau gwirioneddol llety dros nos, ar y ddealltwriaeth bod y costau yr eir iddynt yn rhai rhesymol; a
VI. mewn perthynas ag athrawon sy'n cael eu rhyddhau o'r ysgol er mwyn gwneud cyflwyniadau mewn cyfarfodydd o GCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn ariannu darpariaeth lanw am hyd at un diwrnod llawn. Os digwydd i hyn brofi'n annigonol, rhaid cysylltu'n fuan â'r Trysorydd, a fydd â'r hawl i gytuno ar lefel uwch o ddarpariaeth lanw gyda naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.

**ARGYMHELLIR** y dylid cynnal y trefniadau uchod, a gytunwyd ar gyfer 2012/2013, am y flwyddyn 2013/2014.

**WALES ASSOCIATION OF SACRES**
**STATEMENT OF ACCOUNTS 2012/2013**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RECEIPTS** | | | |
| Annual Subscription 2011/2012 | | 400.00 | |
| Annual Subscriptions 2012/2013 | | 7752.00 | |
| Bank Interest | | 3.80 | |
| Total Receipts | | | **8155.80** |
| **EXPENDITURE** | | | |
| Meeting Expenses: | | | |
| Room Hire | 168.37 | | |
| Translation of Documents | 1417.36 | | |
| | | 1585.73 | |
| Support for website | | 642.51 | |
| Secretary's Honorarium (2009/2010) | | 375.00 | |
| Secretary's Honorarium | | 1500.00 | |
| Key Stage 3 Religious Education Training | | 4096.38 | |
| Officers Travel | | 675.35 | |
| Contribution to RE News | | 510.14 | |
| Subscriptions: | | | |
| EFTRE | 90.00 | | |
| Interfaith Network (2012) | 75.00 | | |
| Interfaith Network (2013) | 75.00 | | |
| | | 240.00 | |
| Total Expenditure | | 9625.11 | |
| LESS Excess of Expenditure over Receipts | | 1469.31 | |
| | | | **8155.80** |

| | | |
|---|---|---|
| **BALANCE SHEET AT 31/3/13** | | |
| Balance at 31/3/12 | 18812.88 | |
| LESS | | |
| Excess of Expenditure over Receipts | 1469.31 | |
| Balance at 31/3/13 | | **17343.57** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Represented by: | | | |
| Bank balances at 31/3/13: | | | |
| Business Money Manager Account | 5451.51 | | |
| Community Account | 15988.44 | | |
| | | 21439.95 | |
| LESS | | | |
| 2 cheques drawn and not presented on 31/3/13 | | 4096.38 | |
| | | | **17343.57** |

**Audited and found correct:**

Signed: [signature]          Date: 16/6/13.

*Cadeirydd/*Chairman:
Dr Tania ap Sion

*Ysgrifennydd*/Secretary:
Libby Jones
4 Patten Close
Hawarden
Deeside
CH5 3TH
*e-bost*/e-mail: libby.jones@wrexham.gov.uk
*ffôn/ tel :* 01978 317614

5 Chwefror 2014

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwy'n ysgrifennu i wahodd CYSAGau i enwebu aelodau newydd o Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC. A fyddai eich CYSAG cystal â thrafod unrhyw enwebiadau y mae'n dymuno'u cynnig yng nghyfarfod y CYSAG yn ystod tymor y gwanwyn os gwelwch yn dda. Sylwer, os yw eich CYSAG eisoes yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, yn ôl cyfansoddiad CCYSAGAUC ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi eich hun ar yr adeg hon.

Amgaeaf brofforma y dylid ei gwblhau a'i ddychwelyd ataf yn y cyfeiriad e-bost/post uchod erbyn **Dydd Gwener 28 Mawrth 2014**. Erbyn diwedd Ebrill 2014, byddaf yn anfon y rhestr o enwebiadau atoch, fel bod eich CYSAG yn gallu eu trafod yn ei gyfarfod yn ystod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth gyda'r mater yma.

Yn gywir,

Libby Jones
**Ysgrifennydd CCYSAGAUC**

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2014**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **Cyfeiriad e-bost/ E-mail address** |
|---|---|---|
| Pwyllgor gwaith 1/ Executive Committee 1 | | |